**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 25 HYDREF 2019**

**BWRDD STRYDLUN A PHEIRIANNEG Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: E.V.Latham a/ac A.Wingrave

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

D.Griffiths a/ac N.Headon

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 20 Medi, 2019.

3. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniadau:**

Ychwanegu'r cwmnïau canlynol at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Arch Utility Service (SW) Ltd | 71, 76, 94, 95 |
| Lighting & Illumination Tec. Experience Ltd | 111-Festive Lighting |

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **CYMERADWYAETHAU'R CORFF CYMERADWYO - SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

5. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: HEOL ALEXANDER A CHILGANT ALEXANDER, BRYNCOCH, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad a rhoi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol Alexander a Chilgant Alexander, Bryncoch (fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a gylchredwyd) ar waith ar y safle fel y'i hysbysebwyd, a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori mewn perthynas â'r eitem hon.

6. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: HEOL Y BRONWEN, RHODFA LINGFIELD, HEOL ADDISON A HEOL MOORLAND, SANDFIELDS**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad a rhoi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol y Bronwen, Rhodfa Lingfield, Heol Addison a Heol Moorland, Sandfields (fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a gylchredwyd) ar waith ar y safle fel y'i hysbysebwyd, a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori mewn perthynas â'r eitem hon.

7. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: HEOL Y GORS, CWMGORS A HEOL PONTARDAWE, RHYD-Y-FRO**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad a rhoi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn Heol y Gors, Cwmgors a Heol Pontardawe, Rhyd-y-fro (Dirymiad) a'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig 2019 (terfynau cyflymder 40mya) ar waith ar y safle fel y'u hysbysebwyd yn flaenorol, a hysbysu'r gwrthwynebydd yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu amgylchedd mwy diogel i breswylwyr, modurwyr, cerddwyr a beicwyr drwy leihau'r terfyn cyflymder wrth ddynesu at Gwmgors.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori mewn perthynas â'r eitem hon.

## 8. GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: HEOL KINGDON OWEN, CASTELL-NEDD A'I CHYFFORDD Â'R FYNEDFA I BRESWYLWYR

**Penderfyniad:**

Cadarnhau'r gwrthwynebiadau, a thynnu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol Kingdon, Castell-nedd wrth ei chyffordd â'r lôn fynediad breswyl, o'r Rhaglen Gwaith Cyfalaf a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Byddai'r rhan fwyaf o breswylwyr a fyddai'n elwa o roi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg wedi gwrthwynebu.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori mewn perthynas â'r eitem hon.

9. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: HEN FFORDD, LLANSAWEL, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg ar Hen Heol, Llansawel.

Hysbysebu'r Gorchymyn Traffig, ac os na dderbynnir gwrthwynebiadau, ei roi ar waith ar y safle.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cynnal cyfleuster croesi'n ddiogel er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer gynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

10. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: CYFFORDD CILGANT CIMLA Â CHESTNUT ROAD A HOLLY ROAD, CIMLA, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad, a rhoi Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg ar gyffordd Cilgant Cimla â Chestnut Road a Holly Road, Cimla, Castell-nedd ar waith fel yr hysbysebwyd, gan hysbysu'r gwrthwynebydd yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Ychydig iawn o anhwyslustod fyddai i'r gwrthwynebydd am fod ganddo ddigon o le i barcio oddi ar y ffordd; mae ganddo dramwyfa breifat hir a garej bellter yn ôl o'r ffordd;

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori mewn perthynas â'r eitem hon.

11. **BLAENRAGLEN WAITH 2019/2020**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**